**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon,
a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

27 Ionawr 2023

Sesiwn casglu gwybodaeth am yr honiadau ynghylch Undeb Rygbi Cymru

Annwyl Dawn

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r honiadau sydd wedi'u gwneud yn erbyn Undeb Rygbi Cymru yr wythnos hon mewn rhaglen a ddarlledwyd ar BBC Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu gwahodd Undeb Rygbi Cymru i sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ddydd Iau 2 Chwefror 2023 i gasglu rhagor o wybodaeth am y mater hwn.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn awyddus i ddeall gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn y mater hwn. O'r herwydd, hoffai'r Pwyllgor hefyd drafod hyn gyda chi fel y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am chwaraeon yng Nghymru. Fel y gwyddoch, rydych eisoes wedi trefnu i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar ei ymchwiliad i'r heriau sy'n wynebu sector y diwydiannau creadigol ar y dyddiad hwn. O ystyried natur frys y mater hwn, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu newid ffocws eich sesiwn a'i defnyddio i gasglu gwybodaeth am yr honiadau a wnaed yn erbyn Undeb Rygbi Cymru a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ganlyniad i hynny.

Mae'r Pwyllgor yn glir nad ymchwiliad i'r honiadau yw hwn. Mae'n gyfle i drafod y materion sydd wedi codi a thrafod camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cyhoeddi o ganlyniad i hyn. Bydd y Pwyllgor yn ystyried pa gamau i'w cymryd ynghylch y mater hwn yn dilyn trafodaethau'r wythnos nesaf.

Yn sgil yr ad-drefnu hwn, bydd swyddogion y Pwyllgor yn gweithio gyda'ch swyddogion i nodi dyddiad addas ichi roi tystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor i'r heriau sy'n wynebu sector y diwydiannau creadigol.

Yn gywir

Delyth Jewell

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.